# POLISI A GWEITHDREFN YNGHYLCH CYNNYDD NEU YMGYSYLLTIAD ANFODDHAOL (MYFYRWYR YMCHWIL)

| | |
|---|---|
| **Fersiwn** | 5.0 |
| **Dyddiad A Gymeradwywyd Gan Y Senedd / ASQC** | Cymeradwywyd gyntaf: 31.10.2018 (Y Senedd)<br>Fersiwn gyfredol: 23.05.2024 (Mân newidiadau) (ASQC) |
| **Dyddiad Dod I Rym** | 01.08.2024 |
| **Perchennog Y Ddogfen** | Lywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau PGR) |
| **Cysylltu** | pgr@caerdydd.ac.uk |
| **Rheoleiddio Rhiant** | Rheoliadau Astudio ac Ymgysylltu Myfyrwyr |
| **Dogfennau Cysylltiedig** | Polisi Cyfrifoldebau Myfyrwyr Ymchwil<br>Polisi a Gweithdrefn ynghylch Monitro Myfyrwyr Ymchwil.<br>Polisi a Gweithdrefn Amgylchiadau Esgusodol (Myfyrwyr Ymchwil).<br>Polisi a Gweithdrefn Ymyrraeth er mwyn Cefnogi Myfyrwyr<br>Polisi Gohirio Astudiaethau (Myfyrwyr Ymchwil)<br>Polisi a’r Weithdrefn ynghylch Gohirio Astudiaethau neu Ymestyn Terfyn Amser<br>Gweithdrefn Adolygu’r Brifysgol |

# CYNNWYS

Polisi ... 1
Gweithdrefn ... 2
2. Absenoldeb heb Ganiatâd o'ch Rhaglen ... 2
3. Peidio â chwblhau'r rhaglen ... 3
4. Pryderon a Godwyd gan eich Goruchwyliwr/wyr neu'r Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig ... 4
5. Argymhelliad i Wahardd ... 5
6. Cynnydd Anfoddhaol a Nodwyd gan eich Panel Cyfweld ... 5
7. Rhybudd o Waharddiad neu Israddiad ... 5
8. Apeliadau ... 8
Atodiad: Cydymffurfio â Disgwyliadau ac Ymarferion Craidd Côd Ansawdd diwygiedig y DU ar gyfer Addysg Uwch ... 9

# POLISI A GWEITHDREFN YNGHYLCH CYNNYDD NEU YMGYSYLLTIAD ANFODDHAOL (MYFYRWYR YMCHWIL)

**Polisi**

1.1 Mae'r polisi a’r weithdrefn hyn yn berthnasol i fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar y rhaglenni canlynol: PhD (heblaw am PhD drwy Waith a Gyhoeddwyd), MD, EngD, Doethuriaethau Proffesiynol a MPhil, o dan yr amodau canlynol:

.1 nid yw'r cyfeiriad at 'israddio' yn berthnasol i'r MPhil na'r Doethuriaethau Proffesiynol hynny sydd heb ddyfarniad atodol;

.2 yn achos Doethuriaethau Proffesiynol sydd wedi'u heithrio yn llawn neu'n rhannol rhag y Weithdrefn Monitro Cynnydd Myfyrwyr Ymchwil, caiff pryderon ynghylch ymgysylltu neu gynnydd eu cydnabod gan oruchwyliwr neu gyfarwyddwr rhaglen, yn hytrach na Phanel Cyfweld.

1.2 Fel myfyriwr ymchwil, mae disgwyl i chi ymgysylltu ag anghenion eich rhaglen gradd ymchwil yn unol â'r Polisi Cyfrifoldebau Myfyrwyr Ymchwil, a chynnal cyfradd o gynnydd digonol a safon gwaith yn unol â'r Polisi a Gweithdrefn ynghylch Monitro Myfyrwyr Ymchwil.

1.3 Gall eich goruchwyliwr/wyr neu eich Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig godi pryder ynghylch eich ymgysylltiad â'ch rhaglen os, *er enghraifft*:

- rydych yn cymryd cyfnod o absenoldeb heb ganiatâd o'ch astudiaeth ymchwil;
- nid ydych yn mynychu cyfarfodydd goruchwylio na chyfarfodydd eraill sy'n ofynnol gan eich Ysgol;
- nid ydych yn ymateb i geisiadau am gyfarfodydd na chyfathrebiadau eraill;
- nid ydych yn mynychu nac yn cwblhau gweithgaredd hyfforddiant gorfodol;
- nid ydych yn glynu at eich amserlen terfynau amser fel sy'n ofynnol gan y Weithdrefn Monitro Cynnydd Myfyrwyr Ymchwil;
- nid ydych yn cyflwyno gwaith i'w adolygu fel rhan o Rybudd Gwahardd/Israddio;
- nid ydych yn cyflwyno eich traethawd ymchwil i’w arholi ymhen y terfyn amser a ganiateir;

- nid ydych yn cwblhau newidiadau sy'n ofynnol i'ch traethawd ymchwil ymhen y terfyn amser.

1.4 Gall eich goruchwyliwr/wyr (mewn digwyddiad monitro neu ar unrhyw adeg), neu eich Panel Cyfweld, godi pryderon ynghylch eich cynnydd os:

.1 nad ydych yn gwneud gwaith ar gyfer eich goruchwyliwr/wyr yn unol ag amserlen y cytunwyd arni;

.2 nad ydych yn gallu cadw at gyfradd o gynnydd disgwyliedig yn eich Cynllun Ymchwil/Cyflawni'r Traethawd; neu

.3 ystyrir ansawdd eich gwaith ymarferol neu ysgrifenedig i fod o safon anfoddhaol.

1.5 Os oes gennych amgylchiadau esgusodol sy'n amharu ar eich cynnydd a/neu eich lefel ymgysylltu, dylech roi gwybod amdanynt trwy'r Polisi a Gweithdrefn Amgylchiadau Esgusodol (Myfyrwyr Ymchwil).

1.6 Mae hefyd gofyn i chi gwblhau bob cam o'r broses gofrestru ac ymrestru yn flynyddol. Os nad ydych yn gwneud hynny, bydd y Brifysgol yn ymateb yn unol â'r Rheoliadau Astudio ac Ymgysylltu Myfyrwyr.

1.7 Os oes gan yr Ysgol bryderon sy'n cynyddu ynghylch iechyd meddygol, seicolegol neu emosiynol unrhyw fyfyriwr, gallai Pennaeth yr Ysgol gychwyn y Polisi a Gweithdrefn Ymyrraeth er mwyn Cefnogi Myfyrwyr.

1.8 Os mai'ch Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig yw eich goruchwyliwr hefyd, byddant yn enwebu aelod arall o staff i weithredu yn rhinwedd y Cyfarwyddwr wrth weithredu'r weithdrefn isod.

1.9 Os cewch eich gwahodd i gyfarfod i drafod eich cynnydd neu ymgysylltiad, gallwch wneud cais i wneud hynny wyneb yn wyneb neu ar-lein.

1.10 Gallwch wahodd aelod o Gyngor i Fyfyrwyr Undeb y Myfyrwyr neu gynrychiolydd undeb proffesiynol i ddod i gyfarfod gyda chi am gefnogaeth. Gofynnir cwestiynau i chi a bydd disgwyl i chi ymateb i'r cwestiynau eich hun, ond gall eich cynrychiolydd eich helpu i grynhoi eich ymateb ac unrhyw ffactorau lliniarol.

**Gweithdrefn**

**2. Absenoldeb heb Ganiatâd o'ch Rhaglen**

2.1 Os ydych yn cymryd cyfnod o absenoldeb heb ganiatâd o'ch astudiaethau ymchwil ac yn methu ag ymateb i gyfathrebiadau gan eich goruchwyliwr/wyr neu'r Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig, byddwn yn ystyried eich bod wedi penderfynu peidio â chymryd rhan yn eich rhaglen.

2.2 Bydd eich Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig yn eich gwahodd i gyfarfod i drafod eich amgylchiadau. Gwahoddir eich goruchwyliwr/wyr i'r cyfarfod hefyd. Bydd gennych o leiaf **7 diwrnod** o rybudd cyn y cyfarfod.

2.3 Os ydych yn dymuno, gallwch hefyd gwrdd â'ch Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig ar wahân, cyn neu ar ôl y cyfarfod sy'n cynnwys eich goruchwyliwr/wyr.

2.4 Yn dilyn y cyfarfod, bydd eich Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig yn cymryd un o'r camau canlynol:

.1 cofnodi bod pryderon wedi'u nodi a'u trafod gyda chi, ond nad oes angen cymryd camau pellach ar hyn o bryd;

.2 rhoi Rhybudd o Waharddiad neu Israddiad o'ch astudiaethau ymchwil i chi am gyfnod a bennir. Bydd angen i chi ddangos lefel ddigonol o ymgysylltu yn ystod y cyfnod hwnnw (gweler 7 isod);

.3 gweithredu'r Polisi a Gweithdrefn Ymyriad i Gefnogi Astudio;

.4 cynghori Pennaeth yr Ysgol eich bod wedi penderfynu peidio â chymryd rhan yn eich rhaglen ac y dylech gael eich diarddel.

2.5 Lle bo'n briodol, gall eich Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig drafod yr opsiwn o ohirio eich astudiaethau neu drosglwyddo i raglen astudio ran-amser.

2.6 Os nad ydych yn ymateb i'r cais am gyfarfod i drafod eich amgylchiadau, neu yn methu â bod yn bresennol heb reswm da, bydd eich Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig yn argymell i Bennaeth yr Ysgol eich bod wedi bod yn absennol o'ch rhaglen ac y dylech gael eich gwahardd.

## 3. Peidio â chwblhau'r rhaglen

3.1 Os nad ydych yn cyflwyno/ailgyflwyno eich traethawd ymchwil neu'n cwblhau unrhyw newidiadau sy'n ofynnol gan eich arholwyr ymhen y terfyn amser, ystyrir eich bod penderfynu peidio â chymryd rhan yn eich rhaglen.

3.2 Bydd eich Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig yn eich gwahodd i gyfarfod i drafod eich amgylchiadau. Gwahoddir eich goruchwyliwr/wyr i'r cyfarfod hefyd. Bydd gennych o leiaf **7 diwrnod** o rybudd cyn y cyfarfod.

3.3 Os ydych yn dymuno, gallwch hefyd gwrdd â'ch Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig ar wahân heb i'ch goruchwyliwr/wyr fod yn bresennol.

3.4 Yn dilyn y cyfarfod, bydd eich Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig yn cymryd un o'r camau canlynol:

.1 eich cyfeirio chi at y Polisi Amgylchiadau Esgusodol (Myfyrwyr Ymchwil) neu'r Polisi ar Gyflwyno Traethodau Gradd Ymchwil yn Hwyr;

.2 gweithredu Polisi a Gweithdrefn Ymyrraeth er mwyn Cefnogi Myfyrwyr;

.3 cynghori Pennaeth yr Ysgol eich bod wedi penderfynu peidio â chymryd rhan yn eich rhaglen ac y dylech gael eich diarddel.

3.5 Os nad ydych yn ymateb i'r cais am gyfarfod i drafod eich amgylchiadau, neu yn methu â bod yn bresennol heb reswm da, bydd eich Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig yn argymell i Bennaeth yr Ysgol eich bod wedi bod yn absennol o’ch rhaglen ac y dylech gael eich gwahardd.

## 4. Pryderon a Godwyd gan eich Goruchwyliwr/wyr neu'r Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig

4.1 Nid mewn Adolygiad Blynyddol neu adolygiad 9 mis yn unig y gall goruchwyliwr neu eich Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig godi pryderon ynghylch lefel eich ymgysylltiad â'ch rhaglen neu eich cynnydd academaidd.

4.2 Os codir pryderon o’r fath, gofynnir i chi fynd i gyfarfod gyda’ch Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig a’r goruchwyliwr/oruchwylwyr i ystyried y pryderon hyn. Byddwch yn cael o leiaf **7 diwrnod** o rybudd o'r cyfarfod, a fydd yn cynnwys adroddiad ysgrifenedig o'r pryderon hynny.

4.3 Os ydych yn dymuno, gallwch hefyd gwrdd â'ch Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig ar wahân heb i’ch goruchwyliwr/wyr fod yn bresennol.

4.4 Os nad ydych yn ymateb i'r cais i ddod i'r cyfarfod gyda'ch Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig a'ch goruchwyliwr/wyr i drafod y pryderon a godwyd, neu os nad ydych yn dod i'r cyfarfod heb reswm da, bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal yn eich absenoldeb.

4.5 Yn dilyn y cyfarfod, bydd y Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig yn cymryd un o'r camau canlynol:

.1 cofnodi bod pryderon wedi'u nodi a'u trafod gyda chi, ond nad oes angen cymryd camau pellach ar hyn o bryd;

.2 rhoi Rhybudd o Waharddiad neu Israddiad o'ch astudiaethau ymchwil i chi am gyfnod a bennir. Bydd angen i chi ddangos gwelliant yn eich ymgysylltiad a/neu eich cynnydd yn ystod y cyfnod hwnnw (gweler 7 isod);

.3 dechrau Polisi a Gweithdrefn Ymyriad i Gefnogi Astudio y Brifysgol;

.4 cynghori Pennaeth yr Ysgol eich bod wedi penderfynu peidio â chymryd rhan yn eich rhaglen ac y dylech gael eich diarddel.

4.6 Lle bo'n briodol, gall eich Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig drafod yr opsiwn o ohirio eich astudiaethau neu drosglwyddo i raglen astudio ran-amser.

## 5. Argymhelliad i Wahardd

5.1 Os argymhellir y dylech gael eich gwahardd, byddwch yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig o'r argymhelliad ac yn cael gwybod bod gennych **7 diwrnod** i ymateb i'r argymhelliad hwnnw.

5.2 Os ydych yn gwneud cais i ail-ymgysylltu â'ch rhaglen o fewn y 7 diwrnod, cewch eich gwahodd i gwrdd â'ch Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig a'ch goruchwyliwr/wyr unwaith yn rhagor i roi un cyfle arall i chi drafod eich amgylchiadau.

5.3 Os na fyddwch yn gwneud cais i ail-gysylltu â'ch rhaglen, a/neu fod yr argymhelliad i wahardd yn cael ei gadarnhau ar ôl cyfarfod pellach, bydd eich Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig yn cyfarwyddo Llywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau PGR) i'ch gwahardd o'ch rhaglen.

## 6. Cynnydd Anfoddhaol a Nodwyd gan eich Panel Cyfweld

6.1 Os yw eich 9 mis neu'r Adolygiad Blynyddol (yn rhan o'r Weithdrefn Monitro Cynnydd Myfyrwyr Ymchwil) yn pennu nad yw eich cynnydd yn foddhaol fe'ch gwahoddir i gael cyfarfod gyda'ch Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig i drafod eich amgylchiadau. Bydd eich Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig yn esbonio pam nad yw eich cynnydd yn foddhaol a'r weithdrefn Rhybudd o Wahardd neu Israddio. Os nad oes unrhyw amgylchiadau lliniarol, bydd y Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig yn cadarnhau penderfyniad y panel adolygu cynnydd.

6.2 Ni allwch gael Rhybudd o Waharddiad neu Israddiad oherwydd cynnydd anfoddhal os oes llai na 9 mis o'ch ymgeisyddiaeth yn weddill. Os nodir cynnydd anfoddhaol wrth y cam hwyr hwn, gallwch ddisgwyl asesiad gonest o'ch gwaith ac adborth adeiladol sy'n briodol ar gyfer yr amser sy'n weddill. Gall eich ysgol eich cyfeirio at y Polisi Amgylchiadau Esgusodol (Myfyrwyr Ymchwil) neu'r Polisi ar Gyflwyno Traethodau Gradd Ymchwil yn Hwyr fel y bo'n briodol.

## 7. Rhybudd o Waharddiad neu Israddiad

7.1 Os yw'r Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig yn rhoi Rhybudd o Waharddiad neu Israddiad i chi, fe gewch chi hysbysiad ysgrifenedig. Bydd hwn yn cynnwys y rhesymau dros y rhybudd a'r amcanion sydd angen i chi eu bodloni er mwyn codi'r rhybudd. Cytunir ar yr amcanion gan eich goruchwyliwr/wyr a'r Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig, a allai hefyd ddewis ymgynghori ag adolygwr annibynnol.

7.2 Bydd yr hysbysiad ysgrifenedig yn nodi un neu fwy o'r canlyniadau posibl ar ddiwedd cyfnod y rhybudd os mai peidio â chodi nag ymestyn y rhybudd yw'r argymhelliad:

.1 ni fydd argymhelliad i israddio i MPhil (neu ddyfarniad is arall a bennir ar gyfer y rhaglen) a gwaharddiad yn cael ei ystyried yn yr achos hwn;

.2 ni fyddai argymhelliad i'ch gwahardd o'ch astudiaethau ac israddio i MPhil (neu ddyfarniad is arall a bennir ar gyfer y rhaglen) yn addas yn yr achos hwn;

.3 argymhelliad i naill ai eich israddio i MPhil (neu ddyfarniad is arall a bennir ar gyfer y rhaglen) neu eich gwahardd o'r rhaglen, lle byddai cyflawni'r amcanion a bennir yn rhannol yn golygu y byddai trosglwyddo i MPhil (neu raglen debyg) yn addas yn yr achos hwn.

7.3 Bydd copi o'r hysbysiad yn cael ei anfon i Lywodraethu Addysg (PGR Ansawdd a Gweithrediadau).

7.4 Mae Rhybudd o Waharddiad neu Israddiad yn rhoi'r cyfle i chi ddangos y gallwch wella eich perfformiad a/neu eich ymgysylltiad ochr yn ochr â chyfres o amcanion yn ddigonol i barhau i fod wedi eich cofrestru ar eich rhaglen gradd ymchwil. Dylech drefnu i gwrdd â'ch goruchwyliwr/wyr i drafod yr amcanion cyn gynted â phosibl.

7.5 Bydd y rhybudd yn caniatáu o leiaf **2 fis** i chi ddangos gwelliant ochr yn ochr â'r amcanion a roddwyd i chi. Os ydych chi'n astudio'n rhan-amser neu rydych yng nghyfnod cwblhau'r traethawd ymchwil, bydd gennych o leiaf **3 mis** i ddangos gwelliant.

7.6 Os oes gennych amgylchiadau esgusodol yn ystod y cyfnod rhybudd, dylech roi gwybod amdanynt trwy'r Polisi a Gweithdrefn Amgylchiadau Esgusodol (Myfyrwyr Ymchwil).

7.7 Ar ddiwedd y cyfnod rhybudd, caiff eich cynnydd ei asesu gan eich goruchwyliwr/wyr ac adolygwr annibynnol, fel arfer aelod o'ch panel adolygu cynnydd. Ar sail eu hadroddiadau, bydd y Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig yn gwneud un o'r argymhellion canlynol i Bennaeth yr Ysgol:

.1 dylid diddymu'r rhybudd;

.2 dylid ymestyn y rhybudd am gyfnod pellach;

.3 os yn bosibl, dylech gael eich israddio i ymgeisyddiaeth MPhil (neu raglen atodol debyg);

.4 dylech gael eich gwahardd rhag gwneud yr ymchwil.

7.8 Ni ddylai myfyriwr amser llawn gael Rhybudd o Waharddiad neu Israddiad am fwy na **6 mis yn olynol**, ac ni ddylai myfyriwr rhan-amser gael un am fwy na **9 mis yn olynol** oni bai bod addasiad cymeradwy ar gyfer amgylchiadau esgusodol.

7.9 Bydd y Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig yn rhoi gwybod i chi am yr argymhelliad a wnaed i Bennaeth yr Ysgol.

7.10 Os bydd Pennaeth yr Ysgol yn argymell eich gwahardd o'ch astudiaeth ymchwil neu eich israddio i ymgeisyddiaeth MPhil (neu raglen atodol debyg) ac nid ydych yn cytuno â'r argymhelliad, bydd Pennaeth yr Ysgol yn penodi Panel Ysgol i ystyried y gwaharddiad neu'r israddiad. Bydd aelodau'r Panel yn cynnwys:

.1 dau oruchwyliwr profiadol: bydd o leiaf 1 yn dod o'ch Ysgol; bydd yr ail naill ai o'ch Ysgol chi neu o Ysgol arall; ac
.2 uwch-aelod o staff academaidd eich Ysgol fydd yn cadeirio'r cyfarfod.

7.11 Ni fydd eich goruchwylwyr na'ch adolygwyr cynnydd na'ch Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig yn aelodau ar y panel.

7.12 Byddwch yn cael gwybod am y dyddiad, amser a'r lleoliad o leiaf **14 diwrnod** cyn cyfarfod y Panel.

7.13 Cewch wybod y gallai fod hawl gennych i wneud eich cais yn erbyn gwaharddiad/israddiad yn bersonol drwy gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r Panel.

7.14 Os ydych yn dymuno cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r Panel, dylech wneud hynny o leiaf **7 diwrnod** cyn cyfarfod y Panel. Dylid gwneud cais i ddod i'r cyfarfod fideo o leiaf **7 diwrnod** ymlaen llaw.

7.15 Os ydych yn methu ag ymateb i wahoddiad y cyfarfod, neu ddim yn bresennol, gallai'r Panel fynd yn ei flaen yn eich absenoldeb.

7.16 Bydd y Panel yn ystyried yr argymhelliad i'ch gwahardd/israddio, y ddogfennaeth sy'n seiliedig ar yr argymhelliad ac unrhyw gynrychiolaeth yr hoffech chi ei wneud.

7.17 Bydd Panel yr Ysgol yn penderfynu os dylai'r argymhelliad i'ch gwahardd o'ch astudiaeth ymchwil neu i'ch israddio i raglen MPhil gael ei gadarnhau. Byddant yn penderfynu ar un o'r canlynol:

.1 dylid diddymu'r rhybudd;

.2 dylid ymestyn y rhybudd am gyfnod pellach;

.3 os yn bosibl, dylech gael eich israddio i raglen MPhil (neu raglen atodol debyg);

.4 dylech gael eich gwahardd rhag gwneud yr ymchwil.

7.18 Byddwch yn cael gwybod beth yw canlyniad Panel yr Ysgol yn ysgrifenedig ymhen **7 diwrnod** o wneud y penderfyniad.

## 8. Apeliadau

8.1 Gallwch wneud cais am adolygiad o'r penderfyniad a wnaethpwyd o dan y Weithdrefn hon yn unol â Gweithdrefn Adolygu'r Brifysgol. Rhaid gwneud cais am adolygiad ar un neu fwy o'r seiliau a nodir yn y Weithdrefn a rhaid iddo gyrraedd Achosion Myfyrwyr o fewn 14 diwrnod o anfon yr hysbysiad atoch.

**Atodiad: Cydymffurfio â Disgwyliadau ac Ymarferion Craidd Côd Ansawdd diwygiedig y DU ar gyfer Addysg Uwch.**

Mae’r polisi a’r weithdrefn hon yn cydymffurfio â Disgwyliadau ac Ymarferion Craidd Côd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch:

| **Disgwyliadau ar gyfer Safonau** | **Disgwyliadau ar gyfer Ansawdd** |
|---|---|
| Mae safonau academaidd cyrsiau yn bodloni gofynion y fframwaith cymwysterau cenedlaethol perthnasol. | Mae cyrsiau wedi'u dylunio'n dda, ac yn rhoi profiad academaidd o safon uchel i bob myfyriwr, ac yn galluogi ffordd ddibynadwy o asesu cyrhaeddiad myfyriwr. |
| Mae gwerth y cymwysterau a ddyfernir i fyfyrwyr wrth iddynt gymhwyso a dros amser, yn unol â'r safonau a gydnabyddir gan y sector. | O gael eu derbyn hyd at gwblhau, caiff yr holl fyfyrwyr y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo mewn addysg uwch, ac elwa ohono. |
| **Arferion Craidd o ran Safonau** | **Arferion Craidd o ran Ansawdd** |
| Mae'r darparwr yn gwneud yn siŵr bod y trothwy o ran safonau ar gyfer ei gymwysterau yn cyd-fynd â'r fframweithiau cymwysterau cenedlaethol perthnasol. | Mae gan y darparwr staff cymwysedig digonol sy'n meddu ar sgiliau i roi profiad academaidd o safon uchel. |
| | Mae gan y darparwr gyfleusterau, adnoddau dysgu a gwasanaethau cynorthwyo myfyrwyr digonol a phriodol er mwyn rhoi profiad academaidd o safon uchel. |
| | Mae'r darparwr yn ymgysylltu'n weithredol â myfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, o ran safon eu profiadau academaidd. |
| | Mae gan y darparwr gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau sy’n deg ac yn dryloyw, ac sydd yn hygyrch i bob myfyriwr. |
| | Pan mae’r darparwr yn cynnig graddau ymchwil, mae'n cyflwyno’r rheini mewn amgylcheddau ymchwil perthnasol a chefnogol. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r darparwr yn cefnogi pob myfyriwr i lwyddo yn academaidd ac yn broffesiynol. |
| **Arferion cyffredin o ran Aafonau** | **Arferion cyffredin o ran Ansawdd** |
| Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer safonau yn aml ac yn defnyddio'r canlyniadau er mwyn ysgogi gwelliannau. | Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer ansawdd yn aml ac yn defnyddio'r canlyniadau er mwyn ysgogi gwelliannau. |
| | Mae'r darparwr yn ymgysylltu â myfyrwyr yn unigol ac ar y cyd yn natblygiad, sicrwydd a gwelliant ansawdd eu profiad addysgiadol. |